**Adroddiad Grŵp Cyflawni BGC**

Paratowyd gan: Steffan Gruffudd

| | |
|---|---|
| **Nod Cynllun Llesiant** | Gweithio gyda'n gilydd i ddarparu mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Grŵp Cyflenwi Hinsawdd a Natur y BGC |
| **Cadeirydd** | Gillian Perry, Cyfoeth Naturiol Cymru |

| **CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT – Ni chynhaliwyd cyfarfod yn ystod y chwarter hwn.** |
|---|
| Cafodd cyfarfod wyneb yn wyneb o'r Grŵp Cyflawni ei drefnu'n wreiddiol ar gyfer 16 Hydref 2024 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Gyda'r Llyfrgell ar y trywydd iawn i fod yn garbon niwtral erbyn 2028, byddai ymweliad safle yn gyfle gwych i'r Grŵp Cyflawni gael cipolwg ar eu Rhaglen Lleihau Allyriadau Carbon, yn ogystal â rhannu arfer a dysgu da. Yn anffodus, oherwydd bod y niferoedd cyfyngedig ar gael i fynychu cyfarfod wyneb yn wyneb, penderfynwyd y byddai'r ymweliad yn cael ei ohirio a'i aildrefnu yn y flwyddyn newydd i sicrhau presenoldeb.<br><br>Gwnaed y penderfyniad i ohirio hefyd gan fod Cadeirydd presennol y Grŵp Cyflawni, Gillian Perry, yn gadael ei rôl gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Gan fod CNC ar hyn o bryd yn y broses o ailstrwythuro, nid oes aelod newydd o staff, ac fel canlyniad, Cadeirydd newydd, wedi'i benodi hyd yma. Y gobaith yw y bydd strwythur staff newydd CNC ar waith o ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf, gan gynnwys penodi Cadeirydd newydd i barhau â gwaith y Grŵp Cyflawni. Gyda hyn mewn golwg, cynigiwyd y byddai'r Asesiad Risg a Chyfleoedd Newid Hinsawdd hefyd yn cael ei ohirio nes bod yr adnoddau i gefnogi'r gwaith hwn o fewn CNC wedi'u nodi, ac i gynorthwyo cysondeb. |